# Dyma Beth Ddwedoch Chi...

## Sue Leekam

### Athro yn yr Ysgol Seicoleg, Prifysgol Caerdydd

Fy enw i yw Sue Leekham ac rwy'n gweithio gyda Dr Catherine Jones, Cyfarwyddwr Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd.

Un uchafbwynt arbennig yn ein partneriaeth barhaus gyda'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol eleni yw darn unigryw o ymchwil, a sbardun ar gyfer hyn oedd darparu hyfforddiant diagnostig arbenigol i staff yn y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig am fod hyn wedyn wedi galluogi'r tîm asesu yng Ngwent sydd wedi'i hyfforddi yn y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig i gymryd rhan mewn ymchwil wrth iddyn nhw barhau â'u harfer arferol.

Felly, sut oedd y gwaith yma'n cyfrannu at fywydau'r bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw?

Mae canlyniadau'r ymchwil yn dangos bod gwybodaeth sy'n cael ei chasglu ar wahanol bwyntiau yn y broses diagnosio ac asesu, gan ddefnyddio gwahanol ddulliau a hysbyswyr yn tynnu'r wybodaeth at ei gilydd i gefnogi'r un canlyniad i'r asesiad ac mae hyn wedyn yn rhoi cyfle i symleiddio'r dull o gasglu'r wybodaeth yn y broses asesu gan arbed amser o bosibl i bobl awtistig sy'n aros am asesiad ac i staff yn ystod eu gwaith asesu.

Yn ogystal, darparodd y prosiect yma hyfforddiant gwerthfawr i'n hyfforddai ffisioleg glinigol, Gareth Davies, a gynhaliodd yr ymchwil gyda ni. Hoffwn ddweud diolch yn fawr iawn i'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yng Ngwent ac i'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol am wneud hyn i gyd yn bosibl.